45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 11



# RHEOLAU CYFFREDINOL YR EISTEDDFOD

**Polisi Iaith**
Diben yr Eisteddfod yw hyrwyddo'r diwylliant Cymreig a diogelu'r iaith Gymraeg.
Cymraeg yw iaith yr Eisteddfod.

**Cyffredinol**
Rhaid i'r cyfansoddiadau a'r cystadlu fod yn Gymraeg ag eithrio lle nodir yn wahanol dan unrhyw gystadleuaeth neilltuol.

**Cerddoriaeth**
1. Lle nad oes galw am wybodaeth o'r iaith Gymraeg mae'r cystadlaethau'n agored i unrhyw berson a anwyd yng Nghymru, neu y ganwyd un o'i rhieni yng Nghymru, neu unrhyw berson sy'n byw yng Nghymru yn union cyn yr ŵyl, neu unrhyw berson sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg.
2. Rhaid i unrhyw eiriau a osodir fod yn yr iaith Gymraeg.

**Llefaru/ Cân actol/cyflwyniad dramatig/theatr**
Eithriad gogyfer â phwyslais penodol fydd y defnydd o iaith arall. Ni chaniateir gorddefnydd o iaith arall.

**Dawnsio disgo/Dawns greadigol**
Dylid defnyddio cerddoriaeth â geiriau Cymraeg neu gerddoriaeth offerynnol yn unig fel cyfeiliant.

1. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr Eisteddfod.
2. Dim ond aelodau llawn o Urdd Gobaith Cymru a ganiateir i gystadlu mewn Eisteddfod Gylch, Eisteddfod Sir/Rhanbarth ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
   Ni ystyrir neb yn aelod llawn oni bai iddo dalu ei dâl cofrestru a derbyn Cerdyn a Rhif Aelodaeth am y flwyddyn 2006/7. Y dyddiad olaf ar gyfer cofrestru yw **24 Rhagfyr 2006.** Rhaid i Ysgrifennydd yr Eisteddfod Sir/Rhanbarth sicrhau fod rhif aelodaeth pob cystadleuydd ar y ffurflen a anfonir i Adran yr Eisteddfod.
3. Rhaid i bob cystadleuydd ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Sir/ Rhanbarth ymhob achos.
   Ni chaniateir i unigolyn na pharti na chôr gystadlu yn rhagbrofion yr Eisteddfod Genedlaethol onid anfonir ef yno yn swyddogol o un o Eisteddfodau Sir/Rhanbarth yr Urdd.

**Buddugol cyntaf pob cystadleuaeth** (unigolyn neu barti neu gôr) sydd â'r hawl cyntaf i gynrychioli'r Sir/Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Os metha ef, gall yr ail fuddugol yn yr Eisteddfod Sir/Rhanbarth gymryd ei le trwy drefniant ymlaen llaw ag Adran yr Eisteddfod.

Yn achlysurol gall yr Eisteddfod wahodd yr ail yn ogystal â'r cyntaf i ddod i gynrychioli'r Sir/Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hysbysir y cystadleuwyr perthnasol yn fuan wedi'r Eisteddfod Sir/Rhanbarth olaf i gael ei llwyfannu.

Ni dderbynnir enwau unigolion na phartïon na chorau cydradd buddugol o Eisteddfodau'r Sir/Rhanbarth. Trefned pob Pwyllgor Sir/Rhanbarth gyda'r Beirniad na osodir unigolyn na phartïon yn gydradd fuddugol am y safle cyntaf, ail na thrydydd yn yr Eisteddfod Sir/Rhanbarth. Os anfonir enwau cystadleuwyr cydradd buddugol i'r Eisteddfod Genedlaethol, ni dderbynnir yr un ohonynt.

**4.** Rhaid i ymgeiswyr ar bob cystadleuaeth fod o fewn yr oed priodol ar **y dydd olaf o Awst 2007,** sef ar 31 Awst wedi'r Eisteddfod. Pan sonnir er enghraifft, am gystadleuaeth '14-25 oed' rhaid i ymgeiswyr fod wedi cael eu penblwydd yn 14 oed, ond heb gael eu penblwydd yn 25 oed. Apelir am gydweithrediad ar ran y cystadleuwyr, arweinyddion canghennau, a swyddogion pwyllgorau Cylch a Sir/Rhanbarth. Gofynnir am ddyddiad geni pob cystadleuydd cyn yr Eisteddfod Genedlaethol. Os cyfyd amheuaeth ynglŷn ag oedran unrhyw gystadleuydd, bydd gan Drefnwyr yr Eisteddfod hawl i ofyn am weld Tystysgrif Geni yr ymgeisydd dan sylw, ac i dorri allan o'r gystadleuaeth unrhyw un sy'n torri'r rheol bwysig hon.

**5.** Bydd dyfarniad y Beirniaid yn derfynol ym mhob achos. Dylid cyflwyno unrhyw apêl / protest i sylw Trefnydd yr Eisteddfod yn ysgrifenedig o fewn awr ar ôl dyfarniad unrhyw gystadleuaeth, ond gellir trafod y mater ar lafar yn ogystal.

**6.** Bydd beirniadaeth fer ysgrifenedig ar gael i bob cystadleuydd ar ôl i'r gystadleuaeth ymddangos ar y llwyfan. Yn achos y cystadlaethau cyflwyniad dramatig i ddysgwyr ystyrir y rhagbrawf yn gystadleuaeth derfynol hefyd, oni nodir hynny'n wahanol yn y Rhaglen Swyddogol. Traddodir beirniadaeth fer a lleolir y cystadleuwyr. Ni ellir addo beirniadaeth ysgrifenedig i gystadleuwyr ar waith cartref. Cyhoeddir rhestr o'r buddugwyr a chyfrol o gyfansoddiadau llenyddol buddugol a threfnir arddangosfa o fuddugwyr yn yr Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg

**7.** Cyfrifoldeb Pwyllgor Sir/Rhanbarth yw gweinyddiad ei Eisteddfod Sir/Rhanbarth. Yn yr un modd, dirprwyir y cyfrifoldeb llwyr am weinyddu'r Eisteddfodau Cylch i'r Pwyllgorau Cylch. **Mae rheolau**

**cystadlu'r Eisteddfod Genedlaethol yn berthnasol i holl Eisteddfodau'r Urdd. Rhaid eu gweithredu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir/Rhanbarth.**

8. Cynhelir Eisteddfod Rhanbarth ar gyfer cystadleuwyr o'r tu allan i Gymru yn ystod **mis Mawrth 2007.** Rhaid i bob cystadleuydd o'r tu allan i Gymru anfon ffurflen gystadlu, ag arni ei enw, ei ddyddiad geni, ei rif cofrestru a rhif y gystadleuaeth y bwriada gystadlu arni i Adran yr Eisteddfod **erbyn 30 Ionawr 2007.**
9. Fe all ddigwydd bod cystadleuydd yn perthyn i fwy nag un gangen – Adran Ysgol ac Aelwyd er enghraifft. Caniateir i'r aelod hwnnw gystadlu dros y naill gangen neu'r llall ar wahanol eitemau, gan ei gysylltu ei hun ym mhob achos â'r gangen a'i hyfforddodd yn y gwaith yn hytrach na'r gangen a fu'n gyfrifol am ei gofrestru'n aelod. Ni chaniateir i unrhyw un ymgeisio dros fwy nag un gangen yn yr un gystadleuaeth, na pherthyn i fwy nag un ddeuawd, parti, côr, ac ati yn yr un gystadleuaeth. Ni chaniateir i'r un person chwarae mwy nag un offeryn yn yr un gystadleuaeth offerynnol.
10. Ni chaniateir i neb gystadlu fel 'aelod unigol' os oes cangen Yr Urdd yn ei ysgol neu o fewn 4 milltir i'w gartref. **RHAID** iddo gystadlu yn enw'r gangen honno ym mhob achos.
11. Trefnir rhagbrofion yn ôl y galw, a hysbysir y manylion mewn digon o amser ymlaen llaw. Onid etyb pob ymgeisydd yn ddi-oed pan elwir arno mewn rhagbrawf neu oddi ar lwyfan yr Eisteddfod fe gyll yr hawl i gystadlu.
12. Rhaid i unawdwyr a deuawdwyr lleisiol dderbyn gwasanaeth Cyfeilyddion Swyddogol yr Eisteddfod yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan. Nid yw hyn yn cynnwys unawdwyr offerynnol na'r Unawdau allan o Sioe Gerddorol.
13. Ni chaniateir i neb ddefnyddio copïau o eiriau a/neu gerddoriaeth mewn unrhyw fodd, ac eithrio yn yr adran offerynnol.
14. Os ceir teilyngdod, ceisir llwyfannu tri ymgeisydd ar bob cystadleuaeth, eithr gall y nifer amrywio yn ôl safon, ystyriaethau amser, ac ati.
15. Mae'n ddealledig nad yw'r beirniaid i hyfforddi na chyfarwyddo unrhyw gystadleuydd yn yr adran o waith yr Eisteddfod y maent yn beirniadu ynddi rhwng **1 Medi a'r Eisteddfod**. Ni ddylai Pwyllgorau Cylch a Sir/Rhanbarth wahodd beirniaid yr Eisteddfod Genedlaethol i feirniadu yn eu heisteddfodau hwy yn yr un adran o waith yr Eisteddfod y byddant yn beirniadu ynddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Eithriad yw'r rheol uchod i'w pan fo argyfwng yn codi a beirniaid yn tynnu yn ôl o'r Eisteddfod Genedlaethol. Cedwir yr hawl gan y Cyfarwyddwr i dynnu beirniaid i mewn ar y funud olaf er mwyn gallu cyflawni'r dasg.

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 14



16. Bydd gan Gyngor yr Urdd, mewn ymgynghoriad â Phwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, hawl i gwtogi'r Eisteddfod neu ei gohirio neu i ddiddymu os bernir hynny'n angenrheidiol oherwydd amgylchiadau arbennig. Bydd Cyngor yr Urdd a Phwyllgor Gwaith yr Eisteddfod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y bydd holl drefniadau'r ŵyl yn effeithiol ond ni ellir dal y Cyngor na'r Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddamwain a ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.
17. Rhaid i bob cystadleuydd berfformio/defnyddio'r un darn/au o waith ar hyd y daith - o'r Eisteddfod Gylch i'r Eisteddfod Genedlaethol.
18. **HAWLFRAINT** – am ragor o wybodaeth parthed hawlfraint a chlirio darnau Hunan-Ddewisiad ewch i wefan urdd.org/eisteddfod a dewis Cymorth Hawlfraint.
19. **Wrth gyfri'r nifer o ddisgyblion mewn ysgol ar gyfer cystadlu dylid eu cyfrif o ddosbarth derbyn hyd at Blwyddyn 6.**

**"Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystadleuwyr, hyfforddwyr a chefnogwyr ymrwymo i ysbryd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r Mudiad"**

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 15



## ENWAU SWYDDOGOL CANGHENNAU'R URDD

1. **Adran Ysgol**: Pob cangen sydd yn gweithredu o fewn naill ai Ysgol Gynradd yn unig neu o fewn Ysgol Uwchradd yn unig.

2. **Adran:** Gweler y diffiniad isod.

3. **Aelwyd:** Gweler y diffiniad isod.

4. **Ysgolion Perfformio**: Croesawir Ysgolion Perfformio i gystadlu yn yr Eisteddfod yn y categori ar gyfer unrhyw aelod o'r Urdd o dan yr oedran priodol, h.y. y cystadlaethau hynny nad sy'n nodi eu bod ar gyfer unrhyw gategori arbennig. Os ydych angen rhagor o arweiniad, croeso i chwi gysylltu gyda unrhyw un o Swyddfeydd Adran yr Eisteddfod.

### Diffiniad o Adran ac Aelwyd

Cangen o'r Urdd sy'n agored i holl aelodau cofrestredig y Mudiad o'r oedran priodol sy'n cyfarfod ac yn ymarfer yn annibynnol o'r gyfundrefn addysgol y tu allan i oriau a threfniant ysgol neu goleg, gyda'u rhaglen o weithgareddau o dymor yr Hydref ymlaen heb fod yn estyniad o waith yr Urdd o fewn ysgol neu goleg.

### Celf, Dylunio a Thechnoleg

1. Cyfrifoldeb y Pwyllgorau Sir/Rhanbarth yw penderfynu ar y dull o feirniadu'r cystadlaethau hyn yn yr Eisteddfodau Sir/ Rhanbarth.

2. Ar ôl cynnal yr Eisteddfodau Sir/Rhanbarth, bydd Ysgrifenyddion y Pwyllgorau Sir/Rhanbarth yn anfon y nifer ofynol o'r cynhyrchion a ddyfernir yn deilwng i'w beirniadu yn genedlaethol i'r ganolfan feirniadu gan amgáu rhestr o'r cynhyrchion. Rhaid i'r cynhyrchion hyn gyrraedd erbyn **3 Ebrill 2007** a rhaid i bob eitem gario label y Sir/Rhanbarth wedi ei lenwi'n gywir. Os oes mwy nag un darn yn perthyn i un eitem, cymeradwyir clymu'r cyfan wrth ei gilydd.

3. Argymhellir fod yr Ysgrifenyddion yn cofrestru cynhyrchion a anfonir trwy'r post. Cymerir pob gofal o'r cynhyrchion ond ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am golled neu ddifrod anorfod a all ddigwydd i'r cynhyrchion.

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 16



# DYDDIADAU I'W COFIO

**2006**

**Mehefin/Gorffennaf**

Pwyllgorau Cylch/Rhanbarth i gyfarfod i bennu dyddiadau'r Eisteddfodau Cylch a'r Eisteddfod Sir/Rhanbarth.

**1 Hydref hyd 1 Rhagfyr**

Ysgrifenyddion canghennau sy'n bwriadu ymgeisio ar y Cystadlaethau Canu Ysgafn, Chwarter awr o Adloniant, Detholiad o Ddrama Gerdd, Cyflwyniad Dramatig a Thimau Siarad Cyhoeddus i anfon at Adran yr Eisteddfod, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth i gael ffurflen gystadlu a chyfarwyddiadau.

**24 Rhagfyr 2006**

**Y dyddiad olaf i gofrestru fel aelod o'r Urdd er mwyn gwarantu cael rhif aelodaeth cyn cystadlu.**

**2007**

**30 Ionawr**

(a) Y dyddiad olaf i gyfrif y disgyblion mewn ysgol. (b) Y dyddiad olaf i Adran yr Eisteddfod dderbyn y ffurflen gystadlu yn ôl oddi wrth Ysgrifenyddion y canghennau ar gyfer y cystadlaethau Roc a Phop, Chwarter awr o Adloniant, Detholiad o Ddrama Gerdd, Cyflwyniad Dramatig a Thimau Siarad Cyhoeddus. (c) Y dyddiad olaf i Adran yr Eisteddfod dderbyn manylion ynglŷn â chystadleuwyr o'r tu allan i Gymru.

**28 Chwefror**

Bydd Adran yr Eisteddfod a'r Swyddogion Datblygu wedi cytuno ar amseriad, dyddiad a man cynnal rowndiau rhanbarthol y cystadlaethau Timau Siarad Cyhoeddus.

**1 Mawrth**

(a) Holl gynnyrch Llenyddol, a Chyfansoddi yr Eisteddfod i gyrraedd Adran yr Eisteddfod, Aberystwyth.

**23 Mawrth**

Y Swyddogion Datblygu i anfon rhestr buddugwyr Adran Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Eisteddfod i Adran yr Eisteddfod .

**24 Mawrth**

Y dyddiad olaf i gynnal Eisteddfodau Sir/ Rhanbarth ym mhob talaith.

**26 Mawrth**

Ysgrifenyddion Pwyllgorau Sir/ Rhanbarth i anfon rhestr o fuddugwyr yr Eisteddfod Sir/Rhanbarth a ffurflenni cystadlu at yr Adran Gwasanaeth Gwybodaeth.

**30 Mawrth**

Manylion hawlfraint, darnau Hunan Ddewisiad i gyrraedd yr Adran Gwasanaeth Gwybodaeth erbyn 30 Mawrth fan bellaf.

**3 Ebrill**

Holl gynhyrchion Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Eisteddfod i gyrraedd y Ganolfan feirniadu.

**28 Mai - 2 Mehefin**

Dyddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol

**20 Mehefin**

Y dyddiad olaf y bydd Adran yr Eisteddfod yn derbyn cais am ddychwelyd cynhyrchion yr adrannau Llenyddiaeth a Cyfansoddi.

**31 Awst**

Y Dyddiad y mae'n rhaid i ymgeiswyr fod o fewn yr oedran priodol i gystadlu – 31 Awst ar ôl yr Eisteddfod.

## SUT I GYSTADLU

1. Gofalwch fod pob un sy'n cystadlu yn Aelod o'r Urdd am y tymor 2006/7 erbyn **24 Rhagfyr 2006.** Gellir gwneud hyn trwy anfon y tâl priodol ac enwau'r aelodau i'r Adran Gofrestru, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth. Ni dderbynnir cystadleuwyr i'r Eisteddfodau Cylch oni fydd y manylion am y cystadleuwyr ar y ffurflen briodol, cyn yr Eisteddfod Gylch.
2. Gofynnwch i'ch Swyddog Datblygu am enw a chyfeiriad eich ysgrifennydd Cylch a holwch ef/hi am fanylion yr Eisteddfodau Cylch. Cynhelir yr Eisteddfodau Cylch ddiwedd Chwefror a dechrau Mawrth. Ceir enwau a chyfeiriadau'r Swyddogion Datblygu ar **dudalen 101**.
3. Sylwer yn ofalus ar y rheolau cyffredinol a'r rheolau penodol yn y Rhestr Testunau.
4. **Os oes gennych unrhyw ymholiad parthed rheolau'r Rhestr Testunau, cysylltwch yn y lle cyntaf gyda eich Swyddog Datblygu lleol.**

## O'R NEWYDD

Er gwaethaf pob ymdrech ar ran y Pwyllgorau, o bryd i'w gilydd gorfodir ni i egluro, newid neu fanylu ar rai o'r testunau. Bwletin swyddogol yr Urdd yw **O'r Newydd**, ac ynddo cyhoeddir unrhyw newidiadau yn y Rhestr Testunau. Bydd y rhain yn disodli'r wybodaeth berthnasol yn y Rhestr Testunau. **Anfonir copi at bob Adran gofrestredig o'r Urdd. Pwysleisiwn yr angen i edrych yn fanwl ar y bwletin hwn bob tro y'i cyhoeddir. Yn ogystal, gellir gweld y newidiadau diweddaraf ar ein gwefan- urdd.org/eisteddfod.**

## PWYSIG – SUT I SICRHAU COPÏAU

**Peidiwch** ag ysgrifennu at Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth am gopïau - ni chedwir cyflenwad yno, oni nodir yn wahanol.
Yr unig gopïau sydd ar gael o Adran yr Eisteddfod, Aberystwyth, yw'r rhai hynny lle nodir yn y Rhestr Testunau. **Er mwyn derbyn copïau yn brydlon ymwelwch â'r wefan urdd.org/eisteddfod. Rhaid derbyn tâl ymlaen llaw am unrhyw gopïau a archebir dros y wê.**

Dylech brynu'r llyfrau a'r copïau angenrheidiol oddi wrth eich llyfrwerthwr lleol. Os nad ydynt mewn stoc, mae'n siwr y bydd ef yn barod i'w harchebu.

Yn achlysurol mae copïau yn mynd allan o brint. Ar ôl sicrhau yn y cyfeiriad uchod nad yw'r copïau ar gael cysyllter ar unwaith ag Adran yr Eisteddfod, Aberystwyth. Sicrheir y bydd copïau ar gael i bob cystadleuydd. Ymddengys rhestr gyflawn ohonynt ar urdd.org/eisteddfod.

Wrth gysylltu ag Adran yr Eisteddfod, Aberystwyth, am gopïau neu eiriau Cymraeg **rhaid amgáu amlen parod.**

Bydd amlen parod gydag unrhyw ymholiad arall hefyd yn sicrhau ateb sydyn.

Ni chodir tâl am gopi geiriau ond codir isafswm o £1.50 am gopïau cerddoriaeth.

Mae modd archebu a llawrlwytho rhai darnau oddi ar urdd.org/eisteddfod.

**Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi ei gyhoeddi yn anghyfreithlon.**

## GWOBRAU'R EISTEDDFOD

Rhoddir Tystysgrif a Medal yr Eisteddfod i'r cyntaf, ail a thrydydd ym mhob cystadleuaeth.

## LLETY

**Ni fydd yr Urdd yn darparu llety ar gyfer cystadleuwyr. Os am fanylion parthed Gwestai a Chanolfannau aros ewch i safle'r we: urdd.org/eisteddfod.**

## HAWLFRAINT

Disgwylir i bob cystadleuydd ddigoelu hawl perfformio bob darn sydd yn hunan ddewisiad. Oni wneir hyn ni ddarlledir y perfformiad. **Ceir cymorth ar glirio hawlfraint ar ein gwefan: urdd.org/eisteddfod trwy ddewis 'Cymorth Hawlfraint'. Nid oes angen caniatâd er mwyn perfformio darnau gosod sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn.**

## CYFEIRIADAU CYHOEDDWYR

1. Novello & Co., (Music Sales Ltd.) 8/9 Frith Street, London W1V 5TZ Ffôn: 0171 4340064
2. Gwasg y Bwthyn, Lôn Dewi, Caernarfon, Gwynedd LL57 1ER
3. Boosey & Hawkes, 295 Regent Street, London. W1R 8JH
4. Curiad, Yr Hen Lyfrgell, Ffordd y Sir, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd. LL54 6EY Ffôn: 01286 882 166 Ffacs: 01286 882 692
5. Cwmni Cyhoeddi Gwynn Cyf., Y Gerlan, Heol y Dwr, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd. LL54 6LR Ffôn: 01286 881 797
6. Cyhoeddiadau Barddas, Penrhiw, 71 Ffordd Pentrepoeth, Treforys, Abertawe SA6 6AE Ffôn: 01678 520 378
7. Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Gellir prynu/archebu copïau oddiwrth eich llyfrwerthwr lleol
8. Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, Bryn Medrad, Llangwm, Corwen, Sir Ddinbych Ffôn: 01490 420 484
9. Brass Wind Publications, 4 St. Mary's Road, Manton, Oakham, Rutland LE15 8SU Ffôn 01572 737409
10. Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, Palas Print, 10 Stryd y Plas, Caernarfon LL55 1RR
11. Gwasg Carreg Gwalch, 12 Iard yr Orsaf, Llanrwst, Dyffryn Conwy. LL26 0EH Ffôn: 01492 642 031 Ffacs: 01492 641 502 e-bost: llyfrau@carreg-gwalch.co.uk
12. Gwasg Gee, Lon Swan, Dinbych LL16 3SW Ffôn: 01745 812 020 Ffacs: 01745 812 825
13. Gwasg Gomer, Llandysul, Ceredigion SA44 4QL Ffôn: 01559 362371 Ffacs: 01559 363758
14. Gwasg Gwynedd, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD Ffôn: 01268 674 486
15. Edwin Ashdown Ltd., (Music Sales Ltd.), 8/9 Frith Street, London W1V 5TZ Ffôn: 0171 4340064
16. Staff Music Publishing
17. Hughes a'i Fab, S4C, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF4 5DU Ffôn: 02920 747444
18. Snell & Sons, Music Publishers, 68 West Cross Lane, Abertawe SA3 5LU
19. Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion. SY24 5AP Ffôn: 01970 832 304 Ffacs: 01970 832 782
20. Gwasg Dwyfor, Uned 8, Stad Ddiwydiannol Pen y Groes, Gwynedd LL55 6DB Ffôn: 01286 881911
21. Oxford University Press, Music Department, Great Clarenden Street, Oxford. OX2 6DP Ffôn: 01865 267 749 Ffacs: 01865 837730
22. Heulwen M Thomas, Talar Deg, Brithdir, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2LN Ffôn: 01267 221298

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/3/06 2:09 pm Page 20



## CERDDORIAETH

1. Cenir pob darn prawf a phob Hunan-ddewisiad yn y Gymraeg
2. Caniateir i dri pharti neu gôr gynrychioli'r Rhanbarth yng nghystadleuaeth rhifau, **164, 165,166,167,168**
3. Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a'r cyweirnod a nodir yn y rhaglen hon. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol na newid cyweirnod unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.
4. Rhaid i unigolion, partïon a chorau ddysgu'r darnau cyflawn neu'r nifer o benillion a nodir yn y Rhestr Testunau.
5. Disgwylir i bartïon a chorau ddod â'u cyfeilyddion ac arweinyddion eu hunain, a gall y rheini fod yn bobl mewn oed, oni nodir yn wahanol.
6. Pan fydd cwmni, grŵp neu barti yn defnyddio cerddoriaeth ymlaen llaw neu yn chwarae yn fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw gwmni, grŵp neu barti yw sicrhau yr hawlfraint.

7a Lle mae Hunan – ddewisiad disgwylir i bawb anfon copïau gydag enw, cyfeiriad, rhif ffôn a rhif y gystadleuaeth wedi'u nodi'n glir arnynt, o leiaf bythefnos o flaen llaw at drefnydd yr Eisteddfod Gylch.

7b Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi, yn anghyfreithlon.

8. Yng nghystadlaethau rhifau **5**, **6, 10, 157, 158 a 161, 162** caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.
9. Disgwylir i'r cystadleuwyr fod yn barod i berfformio yn syth ar ôl cyrraedd y llwyfan
10. Mewn cystadleuaeth lle nodir amser penodol bydd yr Eisteddfod yn cosbi cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser trwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant dros amser. Amserir o nodyn cyntaf y cyfeilydd neu'r offerynnwr (p'un bynnag sy'n dechrau'r darn). Mae unrhyw egwyl/bwlch/saib rhwng darnau yn gynwysedig yn yr amser penodedig.

Gweler hefyd **Rheolau Cyffredinol yr Eisteddfod ar dudalen 11**

45649_Rhestr_Testunau_2007 22/3/06 2:09 pm Page 21



## OFFERYNNOL

1a. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu copi ar gyfer y Beirniaid ym mhob un o'r Eisteddfodau y bydd yn ymgeisio ynddynt: Cylch, Rhanbarth a Chenedlaethol.

1b. Disgwylir i bob *ensemble*, band neu gerddorfa ddarparu sgôr cyflawn o'u cerddoriaeth ar gyfer y Beirniaid.

1c. Disgwylir i bawb anfon copïau gydag enw, cyfeiriad, rhif ffôn a rhif y gystadleuaeth wedi'u nodi'n glir arnynt, o leiaf bythefnos o flaen llaw at drefnydd yr Eisteddfod Gylch.

2. Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi, yn anghyfreithlon. Dyma gyfieithiad o ddyfyniad o ***The Code of fair practice*** a baratowyd gan y ***Music Publishers' Association***, ac a gyhoeddwyd ym 1985:
   'Pan fydd cystadleuydd yn chwarae darn "hunan-ddewisiad" allan o gyhoeddiad sy'n cynnwys nifer o weithiau, a'r darn hwnnw heb gael ei gyhoeddi ar wahân, gellir paratoi un llungopi ar gyfer defnydd beirniad mewn cystadleuaeth neu ŵyl cyhyd â bod y cystadleuydd eisoes wedi prynu ei gopi ei hun, a bod y llungopi hwnnw yn cael ei gadw gan weinyddwr y gystadleuaeth neu'r ŵyl a'i ddinistrio wedi'r digwyddiad. Nodir yn benodol nad yw'r caniatâd hwn yn berthnasol i ddarnau gosod'.
   Ni chaniateir i'r sawl sy'n methu cydymffurfio â'r drefn hon ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch. Ni ddychwelir unrhyw gopi hyd nes bo'r cystadleuydd wedi cwblhau ei daith eisteddfodol (boed hynny yn y Cylch, Rhanbarth, neu'r Eisteddfod Genedlaethol).

3. Rhaid i bob cystadleuydd berfformio'r un darn/au ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i'r Eisteddfod Genedlaethol.
   **Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd ei hun. Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw.**

4. Caniateir Arweinydd yng nghystadlaethau **19, 21, 22, 23, 187 a 188**

5. Mewn cystadleuaeth lle nodir amser penodol bydd yr Eisteddfod yn cosbi cystadleuwyr sydd yn mynd dros yr amser trwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant dros yr amser. Amserir o nodyn cyntaf y cyfeilydd neu'r offerynnwr (p'un bynnag sy'n dechrau'r darn). Mae unrhyw egwyl/bwlch/saib rhwng darnau yn gynwysedig yn yr amser penodedig.

6. Pan fydd cwmni, grŵp neu barti yn defnyddio cerddoriaeth ymlaen llaw neu yn chwarae yn fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw gwmni, grŵp neu barti yw sicrhau yr hawlfraint.

7. Gweler hefyd **Rheolau Cyffredinol yr Eisteddfod ar dudalen 11**

## ROC A PHOP

1. Dylid anfon am ffurflenni cystadlu at Adran yr Eisteddfod, Aberystwyth rhwng 1 Hydref ac 1 Rhagfyr 2006. Rhaid i'r ffurflenni cystadlu fod yn nwylo'r Trefnydd erbyn 31 Ionawr 2007. Nid yw'r cystadlaethau hyn yn rhan o'r Eisteddfodau Cylch na Rhanbarth. Rhaid i bob cystadleuydd, yn cynnwys y cyfeilyddion, fod o fewn oedran y gystadleuaeth.
2. Pan fydd cwmni, grŵp neu barti yn defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu yn chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw gwmni, grŵp neu barti yw sicrhau hawlfraint.
3. Disgwylir i bob cystadleuydd anfon dau gopi ar dâp o'r gân y bwriedir ei pherfformio i Adran yr Eisteddfod,Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Bala, Gwynedd erbyn **28 Chwefror 2007**. Bydd y beirniaid yn dewis pump i ymddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mhob cystadleuaeth.
4. Ni chanaiteir defnyddio "Traciau Cefndir".

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 23



## CERDD DANT

1. Derbynnir unrhyw arddull o gyflwyno o fewn Rheolau Cerdd Dant.
2. **PWYSIG** Nodir trefniant pob cainc ymlaen llaw yn y Rhestr Testunau a dylid glynu at y trefniant hwnnw. Os ychwanegir triniaeth offerynnol â/neu leisiol at y gainc, dylid anfon copi ohono gydag enw, cyfeiriad, rhif ffôn a rhif y gystadleuaeth wedi'i **nodi yn glir arno, o leiaf mis o flaen yr Eisteddfod Genedlaethol. Ni chaniateir i unrhyw offeryn heblaw'r delyn/telynau swyddogol chwarae'r trefniant llawn o'r gainc.**
3. Yng nghystadlaethau **29,197,198, 200 rhaid** defnyddio dwy delyn yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan. Gall yr ail delyn naill ai fod o ddewis y cystadleuydd **a than 25 oed neu yr ail** delynor swyddogol sydd â'i enw gyferbyn â'r gystadleuaeth.
   Ystyrir y defnydd o delynor ychwanegol at y ddwy delyn fel rhan o *ensemble* a rhaid iddynt, fel unrhyw offerynnwr arall a ddefnyddir fod o **dan 30 oed**. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sy'n canu.
4. Os dymunir newid cyweirnod gwreiddiol y gainc, dylid cyfyngu'r newid i dôn a hanner o'r naill ochr i'r cyweirnod gwreiddiol.
5. Dylai'r datgeinydd a'r telynor sefydlu'r amseriad cyn dechrau canu.
6. Mae defnyddio copi o'r geiriau mewn unrhyw fodd yn torri datgeinydd allan o'r gystadleuaeth.
7. Ni chaniateir cynorthwyo cystadleuydd mewn unrhyw fodd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa. Dylai'r stiwardiaid sydd â gofal rhagbrofion gyhoeddi hyn ar ddechrau'r rhagbrawf.
8. Rhaid i unigolion, partïon a chorau ddysgu'r penillion i gyd a bod yn barod i ganu'r nifer a ofynnir gan y beirniaid mewn rhagbrawf ac/neu ar y llwyfan.
9. Pan fydd grŵp neu barti yn defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu'n chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw grŵp neu barti yw sicrhau'r hawlfraint.
10. Caniateir i 3 pharti gynrychioli'r Rhanbarth yng nghystadlaethau rhifau **199 a 200.**

### CYSTADLAETHAU PARTI / CÔR

Penderfynwyd peidio nodi deulais/deusain, ond yn hytrach **Parti/Côr** yn unig – ar wahân i pan y nodir Parti Unsain. Golyga hyn bod rhyddid i'r gosodwr/hyfforddwr ddefnyddio cyfuniad o unsain, deulais, trillais ….fel y mynno yn ôl eu gweledigaeth.

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 24



## LLEFARU

1. Bydd y pwyslais ar y llefaru ac ar gyflwyno naws ac ystyr y cerddi neu ddarnau o ryddiaith. Gellir arbrofi, os dymunir, yn ôl gweledigaeth yr hyfforddwr/wraig. Wrth arbrofi gellir (os dymunir) ddefnyddio er enghraifft symud, rhannu, gwisgoedd, cerddoriaeth neu effeithiau eraill. Mae angen pwysleisio mai awgrymiadau'n unig yw'r rhestr uchod.
2. Caniateir defnyddio cerddoriaeth wrth arbrofi ond ni ddylid ychwanegu geiriau
3. Cofied bob tro am gyfyngiadau technegol llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol ac am brinder adnoddau yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, yn ogystal ag yn y Rhagbrofion yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
4. Ni ellir disgwyl i'r Eisteddfodau ddarparu unrhyw offeryn cerdd.
5. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sydd yn llefaru. Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant offerynnol yn unig. Yn y cystadlaethau i ysgolion uwchradd ac Aelwydydd, rhaid i bawb sydd yn ymddangos yn y gystadleuaeth fod o fewn yr oedran priodol. Yn y cystadlaethau sy'n benodol ar gyfer Adrannau (heb fod yn Adran Ysgol) neu ar gyfer aelodau o fewn oedran cynradd, caniateir i un cyfeilydd fod dros oedran y gystadleuaeth.
6. Mae'r uchod yn berthnasol i unigolion yn ogystal ag i grwpiau, eithr dylid pwysleisio nad oes diben i unrhyw arbrawf gynnwys elfennau fydd yn cymryd **mwy o le** yn y rhagbrofion neu ar y llwyfan, na'r cystadlaethau adrodd a gynhelid o dan yr hen drefn. Ystafelloedd dosbarth cyffredin, fel y gwyddys, yw'r ystafelloedd rhagbrofion arferol a'r ystafelloedd lleiaf, gan amlaf, a neilltuir ar gyfer y cystadlaethau i unigolion.
7. Caniateir i dri grŵp neu gôr gynrychioli Sir/Rhanbarth yng nghystadleuaeth rhif **207**
8. Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a nodir yn y rhaglen hon. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.
9. Rhaid i unigolyn a'r grwpiau ddysgu'r penillion i gyd, a bod yn barod i lefaru'r nifer a ofynnir gan y beirniaid mewn rhagbrawf ac/neu ar y llwyfan.
10. Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag, maint tua 10 x 8 medr. Ni chaniateir gosod offer, set na phropiau cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Yn yr un modd, ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan wedi i'r cwmni gilio ar ddiwedd y perfformiad.

45849_Rhestr_Testunau_2007  22/5/06  2:09 pm  Page 25



**11.** Amserir y perfformiad o'r foment y bydd yn dechrau, drwy ynganu'r gair cyntaf.

**12.** Mewn cystadlaethau lle nodir amser penodol ni fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser. Fe'u cosbir drwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant dros yr amser.

**13.** Pan fydd cwmni neu grŵp yn defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu'n chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw gwmni, neu grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.

45649_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 26



## SIARAD CYHOEDDUS

1. Dylid anfon am ffurflenni cystadlu i Dimau Siarad Cyhoeddus at Adran yr Eisteddfod, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, rhwng **1 Hydref ac 1 Rhagfyr 2006**. Rhaid i'r ffurflen gystadlu fod yn nwylo'r Trefnydd erbyn **31 Ionawr 2007**. Ni ellir derbyn unrhyw dîm i gystadlu oni fo'r ffurflen swyddogol hon wedi cyrraedd Adran yr Eisteddfod erbyn y dyddiad uchod. **Codir tâl o £5.00 ar bob tîm sy'n cystadlu** ar y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus. Defnyddir y taliadau hyn fel cyfraniad tuag at gostau teithio'r Beirniaid, a **rhaid anfon y £5.00 gyda'r ffurflen.**
2. Yn union wedi 31 Ionawr 2007 ac yn unol â'r angen bydd Adran yr Eisteddfod yn trefnu taith y beirniad yn ôl y dyddiadau **sy'n gyfleus i'r beirniad.** Yr egwyddor gyffredinol fydd anfon y beirniaid i ganolfannau lle y gall weld a chlywed amryw o dimau ar un noson mewn prawf rhanbarthol, yn hytrach na'u hanfon yn unswydd i weld pob tîm yn ei ganolfan ei hun.
3. Cyn **13 Chwefror** bydd Adran yr Eisteddfod yn anfon at Swyddogion Datblygu yn nodi enwau'r timau sydd o fewn eu rhanbarth a'r dyddiadau a benodwyd i'r profion rhanbarthol. **Trefnir cystadlaethau Rhanbarthol yn ystod Mawrth, ac ni ellir newid y dyddiadau.**
4. Rhaid i bob aelod o bob tîm fod yn aelod cofrestredig o'r Urdd am 2006/2007.
5. Wedi traddodi beirniadaeth lafar i bob tîm ar ôl ei berfformiad yn y prawf rhanbarthol, ni pharatoir beirniadaeth ysgrifenedig wedyn, ond anfonir bras nodiadau at y timau a ddewisir i'r profion terfynol.
6. Rhaid i'r timau a ddewisir i'r profion terfynol gystadlu ar y noson ac yn y drefn a benderfynir gan Drefnydd yr Eisteddfod.
7. Sylwer mai tîm Adran/Ysgol a thîm Aelwyd sydd i gystadlu. Yr Adran/Aelwyd yw'r uned, ac ni chaniateir benthyca perfformwyr o Adrannau/Aelwydydd eraill.
8. Wedi gweld yr holl dimau fe gaiff y beirniad ddewis y timau gorau o blith timau Adrannau Ysgolion Uwchradd, a'r gorau o blith timau Aelwydydd, sydd i ymddangos yn y profion terfynol i'r ddwy gystadleuaeth a gynhelir yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Hysbysir pob tîm, llwyddiannus ac aflwyddiannus, tua chanol Ebrill.
9. Mewn cystadlaethau lle nodir amser penodol ni fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser. Fe'u cosbir drwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant dros yr amser.

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 27



## THEATR

**Ymgom/ Canu Actol/ / Monolog/ Cyflwyniad Theatrig Unigol / Cyflwyniad Dramatig/ Chwarter awr o adloniant /Detholiad o Ddrama Gerdd Gymraeg**

1. Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag, maint tua 10 x 8 medr. Ni chaniateir gosod offer cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Yn yr un modd, ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan wedi i'r cwmni gilio ar ddiwedd y perfformiad.
2. Caniateir offer pwrpasol yn unig.
3. Dylid anelu at gael y cwmni'n gyfan ar y gofod chwarae gydol y perfformiad. Nid oes raid gadael a dychwelyd er mwyn newid cymeriad rhai o'r perfformwyr (gellir gwneud hynny heb iddynt orfod gadael y llwyfan) a dylai gadael y llwyfan a dychwelyd drachefn fod yn ddigwyddiad eithriadol.
4. Cofier fod y perfformiad, o safbwynt beirniad, yn parhau nes bo'r cwmni wedi gadael y llwyfan.
5. Bydd 5 meicroffon ar flaen y llwyfan a bydd posib defnyddio hyd at 4 meicroffon radio ar gyfer y cystadlaethau yma. Dylid cysylltu â rheolwyr y llwyfan ar unwaith wedi'r rhagbrawf ac mewn da bryd cyn fod y gystadleuaeth ar y llwyfan, i nodi'r union anghenion. Bydd hawl gan yr Athro/Hyfforddwr ymgynghori gyda'r Technegwyr Sain parthed 'ciwio'.
6. Cedwir copiau'r cystadleuwyr fydd yn fuddugol yn yr Eisteddfod Gylch yng nghofal y Swyddog Datblygu, fydd wedyn yn eu trosglwyddo i feirniad yr Eisteddfod Rhanbarth hyd nes y bydd y prawf drosodd. Yn union wedyn, bydd y Swyddog Datblygu yn trosglwyddo copiau buddugwyr yr Eisteddfod Rhanbarth i ofal Adran yr Eisteddfod, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, er mwyn sicrhau fod copiau ar gyfer pob cystadleuydd yn cyrraedd dwylo'r beirniaid cenedlaethol mewn pryd.
7. Mewn cystadlaethau lle nodir amser penodol ni fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser. Fe'u cosbir drwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant yn ei gymryd dros yr amser.
8. Yn Nghystadleuaeth y Fonolog a'r Cyflwyniad Theatrig Unigol ni chaniateir i unrhyw gystadleuydd berfformio unrhyw ddrama/rhyddiaith y mae wedi'i pherfformio eisoes yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru dros y dair blynedd diwethaf.
9. Lle fo'n bosib, annogir cwmni, grŵp neu barti i ddefnyddio cerddoriaeth wreiddiol. Pan fydd cwmni, grŵp neu barti yn chwarae cerddoriaeth a

recordiwyd ymlaen llaw neu chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, **cyfrifoldeb y cyfryw gwmni, neu unigolyn, grŵp neu barti yw sicrhau'r hawlfraint.** Canllawiau hawlfreintio ar wefan Urdd Gobaith Cymru – urdd.org

**10.** Amserir y perfformiad o'r foment y bydd yn dechrau naill ai drwy'r sain cyntaf neu drwy'r ystum cyntaf.

**11.** Ni ellir disgwyl i'r Eisteddfodau ddarparu unrhyw offeryn cerdd.

**12.** Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant yn unig. Nid oes raid i'r cyfeilyddion fod o fewn oedran y gystadleuaeth.

## YMGOM

Cyflwyniad gan 2 - 4 mewn nifer o ddarn gwreiddiol neu osodedig. Dylid derbyn amseriad unrhyw sgript osod, ond bydd rhaid i bob sgript Hunan Ddewisiad gadw at yr amser o – dim hwy na 5 munud.

## CÂN ACTOL

Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar ganu ac actio. Dylid anelu at gael y gerddoriaeth yn llifo drwy'r perfformiad cyfan. Gall y geiriau a'r alawon fod yn wreiddiol neu wedi eu cyhoeddi neu'n gyfuniad o'r ddau.

## MONOLOG

Cyflwyno monolog na chymer fwy na 4 munud i'w berfformio. Gall y cyflwyniad fod o ddrama neu ryddiaith addas.

## CYFLWYNIAD THEATRIG UNIGOL

Cyflwyniad gan unigolyn o waith wedi ei ddatblygu yn sgript orffennedig neu gyfres o fonologau o ddramau neu ryddiaith addas yn cyfleu dau gymeriad cyferbyniol.

**Nid yw'r cystadlaethau isod yn ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfodau Cylch na'r Eisteddfodau Rhanbarth**

**1) Cyflwyniadau Dramatig Oedran Bl 6 ac iau**

Perfformiad o sgript wreiddiol ar thema osodedig gan grŵp. Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar yr elfen ddramatig. Caniateir defnydd o gerddoriaeth i ychwanegu at yr awyrgylch ond dylid pwysleisio nad hon yw elfen bwysicaf y gystadleuaeth.

**2) Chwarter awr o Adloniant**

Cyfres o eitemau adloniannol neu ar thema arbennig gan grŵp.

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 29



## DAWNSIO GWERIN

1. **Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a nodir yn y rhaglen hon.** Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn unrhyw gystadleuaeth, ond gellir anwybyddu'r awgrymiadau am stepiau sydd mewn rhai argraffiadau.
2. Yn ychwanegol at y brif alaw caniateir defnyddio unrhyw alawon traddodiadol Cymreig neu wreiddiol draddodiadol eu naws ( oni nodir yn wahanol) a fyddo'n addas fel cyfeiliant, ond dylid cychwyn a gorffen gyda'r alaw wreiddiol.
3. Os na nodir rhif penodol o ddawnswyr, caniateir defnyddio unrhyw nifer addas at ofynion y ddawns.
4. Disgwylir i bartïon ac unigolion wneud pob ymdrech i sicrhau cyfeiliant byw i'w dawnsio, ond caniateir defnyddio cerddoriaeth wedi'i recordio ymlaen llaw lle bo hynny'n amhosibl. Os bydd cydraddoldeb yn y dawnsio, yna fe ystyrir natur y cyfeiliant. Caniateir newid y cyweirnod.
5. Pan fydd grŵp neu barti yn defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu yn chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, **cyfrifoldeb y cyfryw gwmni, grŵp neu barti yw sicrhau'r hawlfraint.**
6. Caniateir i bartïon ddefnyddio **hyd at dri** cyfeilydd dros 25 oed ymhlith y cyfeilyddion.
7. Disgwylir i'r gwisgoedd, gan gynnwys esgidiau, ychwanegu at awyrgylch a chyfanrwydd y cyflwyniad. Canllawiau/awgrymiadau ar gael o Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth pe dymunir.
8. Wrth ffurfio partïon dawnsio gwerin, buddiol fyddai cadw mewn cof mai hanfod dawnsio gwerin yw dawnsio **cymysg,** a dylid glynu at gyfarwyddiadau'r ddawns.
9. Mewn cystadlaethau lle nodir amser penodol ni fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser. Fe'u cosbir drwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant dros yr amser.
10. Caniateir i dri pharti neu grŵp gynrychioli Sir/Rhanbarth yng nghystadlaethau rhifau **221 a 227.**

## DAWNS

1. Ni chaniateir defnyddio offer llwyfan na goleuadau arbennig, colur na unrhyw gyfarpar arall. Disgwylir i'r dawnswyr wisgo dillad addas ar gyfer y ddawns.
2. Bydd y beirniad yn rhoi 70% o'r marciau am y dawnsio a 30% am y cynhyrchiad.
3. Er na fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser, fe'u cosbir drwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant dros yr amser.
4. Pan fydd grŵp yn defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu'n chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.
5. Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg.
6. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr o gynnwys y ddawns ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa pan fo hynny'n addas.
7. Arwynebedd perfformio ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yw tua 10 x 8 medr.
8. **Cyfrwng cymysg** - gall cystadlaethau cyfrwng cymysg gynnwys dawns o un *genrè* yn unig neu gymysgedd, megis bale, salsa, tap, clasurol, creadigol. Ni chaniateïr cystadlu mewn mwy nac un cystadleuaeth gyda'r un ddawns.

## DAWNSIO DISGO

1. Er na fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser, fe'u cosbir drwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant dros yr amser.
2. Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf a wneir i'r gerddoriaeth.
3. Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu gerddoriaeth yn yr iaith Gymraeg.
4. Pan fydd grŵp neu unigolyn yn defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu'n chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw grŵp neu unigolyn yw sicrhau'r hawlfraint.
5. Ni chaniateir symudiadau fel olwyn drol, sbring arab, trosben, llawsafiad, rowlio 'mlaen neu 'nôl, fflic fflac ag eithrio splits.
6. Dawnswyr i wisgo dillad addas ar gyfer dawnsio disgo.
7. Ni chaniateir propiau. Darperir chwaraewr tapiau/cryno ddisgiau.
8. Disgwylir i'r sawl sy'n cystadlu ddilyn canllawiau pendant yr Urdd ar y dull disgo

## DYSGWYR

1. **Cynradd:** Dysgwyr yw aelodau nad ydynt wedi/yn dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, ond, os ydynt yn hwyrddyfodiaid di-Gymraeg mewn ysgol lle mae mwyafrif y disgyblion yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg caniateir iddynt gystadlu fel dysgwyr am eu tair blynedd cyntaf yn yr ysgol.
   **Uwchradd:** Dysgwyr yw'r aelodau hynny nad ydynt wedi/yn dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg yn nghyfnod allweddol 1, 2 na 3. Caniateir hwyrddyfodiaid di-Gymraeg i gystadlu fel dysgwyr
   **Byddem yn gobeithio na fydd aelodau lle mae un rhiant yn y cartref yn medru'r Gymraeg yn cystadlu fel dysgwyr.**
   **NID oes hawl gan ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg mewn Ysgol Gymraeg swyddogol gystadlu fel dysgwr.**
2. Rhaid i bob arweinydd adran arwyddo label, i warantu dilysrwydd pob cystadleuydd yng nghystadlaethau Adran y Dysgwyr.
3. Mewn cystadlaethau lle nodir amser penodol, ni fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn diarddel cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser. Fe'u cosbir drwy dynnu 5 marc oddi wrthynt am bob hanner munud neu ran o hanner munud y byddant dros yr amser.
4. Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a'r cyweirnod a nodir yn y rhaglen hon. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol na newid cyweirnod mewn unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.
5. Rhaid i unigolyn, partïon, grŵp a chorau ddysgu'r darnau cyflawn neu'r nifer o benillion a nodir yn y Rhestr Testunau.
6. Pan fydd cwmni, grŵp neu barti yn defnyddio cerddoriaeth a recordiwyd ymlaen llaw neu'n chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw gwmni, grŵp neu barti yw sicrhau'r hawlfraint.
7. **Mae'r rheolau cystadlu sydd wedi eu nodi uwchben cystadlaethau'r Adrannau Cerdd Dant, Llefaru, Theatr a Llenyddiaeth i'r Cymry Cymraeg yn berthnasol hefyd i gystadlaethau'r adran hon.**

## LLENYDDIAETH

1. Nid yw'n angenrheidiol i'r cynhyrchion fynd trwy Eisteddfod Sir/Rhanbarth cyn eu hanfon i gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Rhaid i holl gynhyrchion y cystadlaethau llenyddiaeth, a chyfansoddi gyrraedd Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth erbyn **1 Mawrth, 2007**. Ni chymerir sylw o unrhyw gynhyrchion a ddaw i law wedi'r dyddiad hwn.
2. Ni ddylai ymgeiswyr, ar unrhyw gyfrif, roi eu henwau priodol ar eu gwaith. Gosoder rhif y gystadleuaeth, ffugenw, rhif aelodaeth yn eglur ar gornel uchaf llaw dde'r papur. Yna, amgaeër mewn amlen o faint cyffredin (tua 6" x 4") ddarn o bapur yn dwyn y manylion a ganlyn yn y drefn a nodir: (i) rhif y gystadleuaeth; (ii) y ffugenw; (iii) rhif aelodaeth yr ymgeisydd; (iv) enw priodol yr ymgeisydd; (v) enw ei Adran neu ei Aelwyd; (vi) enw ei Gylch; (vii) enw ei Sir/Rhanbarth; (viii) ei ddyddiad geni. Y tu allan ysgrifenner rhif y gystadleuaeth, y ffugenw a'r rhif aelodaeth yn unig. Rhaid anfon pob ymgais o dan sêl at y **Trefnwyr, Adran yr Eisteddfod, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, SY23 1EN.**

Sylwer yn ofalus ar y patrwm isod.

| | |
|---|---|
| Rhif 201<br>Tomos Caradog<br>(13,452) | I fod yn bennawd i'r cynnyrch a hefyd y **tu allan** i'r amlen. |
| Rhif 201<br>Tomos Caradog<br>(13,452)<br>Siôn Owain<br>**Aelwyd Aberystwyth**<br>Cylch Aberystwyth<br>Ceredigion<br>24/11/83 | I fod y **tu mewn** i'r amlen yn unig. |

(ynghyd â'r cyfeiriad cartref yn achos y prif gystadlaethau. Gweler rheol 6)

3. Rhaid i aelodau o un Adran neu Aelwyd anfon eu cynhyrchion gyda'i gilydd trwy eu hysgrifennydd, a rhaid i'r ysgrifennydd gadarnhau dilysrwydd gwaith yr ymgeiswyr. Dylid labelu'r parsel neu'r pecyn 'Llenyddiaeth' fel y bo'n briodol.

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 34



4. Cymeradwyir cofrestru cynhyrchion a anfonir trwy'r post. Cymerir pob gofal o'r cynhyrchion ond ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod anorfod a all ddigwydd i'r cynhyrchion.
5. Bydd gan Bwyllgor yr Eisteddfod hawl i gyhoeddi pob un neu rai o'r cyfansoddiadau cerddorol, a llenyddol a ddyfernir yn fuddugol, a hynny heb geisio caniatâd yr awduron.
6. Ni chaniateir i neb ennill y Gadair, y Goron, y Fedal Lenyddiaeth, y Fedal Ddrama, Medal y Dysgwr na Thlws y Prif Gyfansoddwr fwy na theirgwaith. Dylai ymgeiswyr ar y cystadlaethau hyn nodi eu **cyfeiriad cartref** ynghyd â'r manylion eraill yn yr amlen dan sêl (gweler rheol 2) .
7. Annogir cystadleuwyr uwchradd i gyflwyno gwaith ar ddisg.
8. Rhaid i'r gwaith a gyflwynir fod yn waith gwreiddiol yr awdur.
9. Dylai'r gwaith llenyddol fod yn waith heb ei gyhoeddi o'r blaen mewn unrhyw ffordd.
10. Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i olygu unrhyw waith sydd yn cael ei farnu yn addas i'w gyhoeddi yn y Cyfansoddiadau Buddugol.
11. Ni chaniateir i'r gwaith, na rhannau ohono fod yn waith sydd wedi cael ei gopio oddi wrth unrhyw un arall.

45849_Rhestr_Testunau_2007   22/5/06   2:09 pm   Page 35



## CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG

1. Rhaid i'r cynhyrchion hyn fynd trwy'r Eisteddfodau Sir/Rhanbarth. Dylai cystadleuwyr gysylltu ag ysgrifenyddion y Pwyllgorau Sir/Rhanbarth os am gystadlu ar un o'r cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg. **Y cyntaf ymhob cystadleuaeth fydd yn cynrychioli'r Sir yn genedlaethol.**
2. Rhaid i enwau cystadleuwyr ddod trwy'r Ysgrifennydd Sir/Rhanbarth ym mhob achos, fel canlyniad naturiol i ddyfarniadau beirniaid Eisteddfod Sir/Rhanbarth. Ni chymerir sylw o enwau a anfonir gan unrhyw un arall.
3. Trefnir Arddangosfa o gynhyrchion buddugol yr Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg. Ni chaniateir i unrhyw un gymryd ei waith yn ôl o'r Arddangosfa yn ystod yr Eisteddfod.
4. Cystadlaethau i unigolion yw'r rhain i gyd oni nodir yn wahanol.
5. Golyga 'Gwaith Grŵp' waith i grŵp o ddau neu fwy.
6. Er mwyn diogelu'r gwaith caniateir mowntio ar bapur neu gerdyn tenau gyda border dim mwy na 25 mm. **Ni** ddylid defnyddio 'mownt ffenestr' na ffrâm ar gyfer y gwaith 2D ag eithrio lle bo ffrâm yn angenrheidiol ar gyfer strwythr y gwaith . Bydd y gwaith yn cael ei ailfowntio'n broffesiynol ar gyfer yr Arddangosfa Genedlaethol.
7. Dylid nodi enw a rhif y gystadleuaeth ar y cerdyn swyddogol ar **gefn** pob darn neu gydran o waith, ac **nid** ar yr wyneb.
8. Rhaid nodi'r cysylltiad â'r thema **yn glir** ar gyfer bob cystadleuaeth boed yn unigol neu waith grŵp.
9. **Maint pob eitem**
   **(a) Gwaith 2D: dim mwy na 760mm x 560mm;**
   **(b) Gwaith 3D: dim mwy na 1000mm x 1000mm x 1000mm oni nodir yn wahanol.**
10. Yn yr Adran Ffotograffiaeth dylid cyflwyno pob eitem wedi'i mowntio ar gerdyn du. Un print maint heb fod yn fwy na 600mm x 500mm. Cyfres o brintiau heb fod yn fwy na 760mm x 560mm.
11. Ni chaniateir i gystadleuwyr ymgeisio mwy nag unwaith ymhob cystadleuaeth o fewn yr adran.

## Y FEDAL GELF, DYLUNIO A THECHNOLEG

**Rhoddir y Fedal gan Gwmni Tinopolis, Llanelli**

**Cyflwynir medal arian a fydd yn eiddo parhaol i'r buddugol am yr eitem orau yn yr Adran Celf, Dylunio a Thechnoleg 12 – 17 oed o blith cystadlaethau 359 a 360.**

**Yr Ysgoloriaeth Gelf, Dylunio a Thechnoleg**
**drwy garedigrwydd Dr. Dewi Davies a'i deulu.**
Cyflwynir yr ysgoloriaeth uchod am y gwaith mwyaf addawol gan unigolyn rhwng 18-25 oed.

**Canllawiau'r Ysgoloriaeth Gelf a Dylunio Technoleg**
Fe dynnir rhestr fer o ymgeiswyr haeddiannol ar gyfer yr ysgoloriaeth yn union wedi'r beirniadu fis Ebrill gan gynrychiolwyr o is-banel canolog a phanel lleol yr Urdd ac yna gwahoddwn hwy i gyflwyno llythyr cais a fydd yn mynegi sut y byddant yn defnyddio'r ysgoloriaeth i hybu a datblygu eu gwaith Celf, Dylunio a Thechnoleg. Bydd y ceisiadau wedyn yn cael ei ystyried gan y panel sefydlog a cedwir yr hawl i ofyn i'r cystadleuwyr ar y rhestr fer i ddod i gyfweliad. Y gobaith yw y bydd yr enillydd yn cael ei wahodd yn ôl y flwyddyn ganlynol i arddangos detholiad o'i waith yn yr arddangosfa.

**Pwy sy'n cael cystadlu?**
Mae'r gystadleuaeth yn agored i'r sawl a all gyfarfod ag un neu fwy o'r amodau/meini prawf canlynol ac sydd yn aelod o'r Urdd :

Ganwyd yng Nghymru neu sydd â rhieni o Gymru.

Byw neu'n gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn dyddiad yr Eisteddfod.

Unrhyw berson sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg.

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/3/06 2:09 pm Page 37



**Tlws Ann, Odwyn a Rhun Davies am yr eitem orau dan 12 oed yn yr Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg**

**THEMA: 'Fy Ngwlad' (gweler tudalen 56)**

Mae rhyddid i unigolion ac i grwpiau ddehongli'r thema yn eu ffordd eu hunain.

Mae'n bosibl ei dehongli'n llythrennol neu'n haniaethol

Rhaid i'r holl waith, heblaw am y cystadlaethau, **Dylunio a Thechnoleg a Creu Artefact a chystadlaethau dros15 oed fod yn seiliedig ar y thema**, oni nodir yn wahanol.

45849_Rhestr_Testunau_2007 22/5/06 2:09 pm Page 38

# BEIRNIAID

## CERDDORIAETH

**Beirniaid:**
**Lleisiol:** Euros Rhys, Marian Thomas,Rhian Williams, Dafydd Lloyd Jones, Geraint Roberts, Meinir Jones, Alun Guy, Bethan Dudley Fryar
**Unawdau allan o Sioe Gerddorol:** Deiniol Rees
**Alaw Werin :** Eleri Eurig
**Llinynnol:** Dr Brian Clarke
**Pres:** Dr Hywel Glyn Lewis
**Chwythbrennau:** William Bott
**Telyn** : Caryl Thomas
**Piano**: Cindy Pascoe
**Roc a Phop:** Ryland Teifi
**Parti Recorder:** Carol Davies
**Gwaith Cartref:** J Eirian Jones, Owain Llwyd, Stephen Rees
**Anghenion Addysgol Arbennig:** Carol Davies
**Cyfeilyddion:** Branwen B Evans, Joy Amman Davies, Lois Davies

## CERDD DANT

**Beirniaid**: Arfon Williams, Carys Williams, Elsbeth Pierce Jones, Bethan Bryn, Gwenan Gibbard
**Telynorion:** Dylan Cernyw, Dafydd Huw, Eluned Pierce, Llio Penri, Lowri Ffrancon Phillips, Nia Keinor Jenkins
**Cyfansoddi:** Bethan Bryn

## LLEFARU

**Beirniaid:**
**Partion:** Beryl Vaughan, Dennis Davies, Buddug Medi,
**Unigol:** Angharad Llwyd, Rhodri Miles

## SIARAD CYHOEDDUS

**Beirniad:** Gareth Evans

## THEATR

**Beirniaid:**
**Ymgom:** Arwel John, Llinor ap Gwynedd, Gwion Huw, Rhian Morgan
**Cân Actol:** Penri Roberts, Heather Gregory
**Cyflwyniad Dramatig:** Carys Tudor Williams, Catrin Brooks
**Detholiad o Ddrama-Gerdd:** Llew Davies
**15 munud o Adloniant:** Glan Davies

**Cyflwyniad Theatrig Unigol:** Mari Rhian Owen, Andrew Teilo
**Cyfansoddi Drama:** Nan Lewis, Delyth Mai Nicholas, Ioan Hefin

## DAWNSIO

**Beirniaid:**
**Dawnsio Gwerin:** Emyr Jones, Eirian Llywelyn Davies, Bethan James, Eira Davies, Sioned Roberts
**Dawns:** Mathew McEvoy, Margaret Ames
**Dawnsio Disgo:** Marc Skone, Olwen Elias

## DYSGWYR

**Beirniaid:**
**Llefaru**: Ann Evans, Lynwen ap Gwynedd
**Drama:** Eirlys Britton
**Llenyddiaeth: Gweler cystadlaethau unigol yng nghorff y Rhestr Testunau**

## LLENYDDIAETH

**Beirniaid:**
**Gweler cystadlaethau unigol yng nghorff y Rhestr Testunau**

## CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG

**Beirniaid:**
**Anghenion Addysgol/Gwaith Creadigol 2D:** Osi Osmond, Lynette Skone, Enfys Elias
**Gwaith Creadigol 2D a 3D:** Osi Osmond, Wynne Jenkins, Joanna Thomas
**Crochenwaith/ Serameg:** Jan Fry, Catrin Hywel
**Graffeg Cyfrifiadurol/Cyfuniad o waith ffotograffiaeth gyda graffeg cyfrifiadurol:** Clive Bartle
**Creu Gwefan:** Gwion Prydderch
**Gemwaith:** Mari Thomas
**Ffotograffiaeth:** Ann Lenny, Arwel Davies
**Fideo:** Non Vaughan Williams
**Pypedau:** Ann Davies
**Tecstilau:** Meinir Eynon, Eleri Williams
**Caligraffeg:** Harvey Thomas
**Arteffact/Dylunio a Thechnoleg:** Gwydion Wynne, Lisa Hearne